ADRODDIAD BLYNYDDOL

# Y COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL YNG NGHYMRU

1 IONAWR 2003

HYD AT 31 RHAGFYR 2003

# RHAGAIR

## gan Cherry Short, Comisiynydd y CRE dros Gymru

Gallai plentyn bach ddweud wrthych fod 12 mis mewn unrhyw flwyddyn, ond o ran 2003, y saith mis olaf fydd yn aros yn y cof i mi, oherwydd cyfres o ddigwyddiadau hiliol cythryblus. Bu'r misoedd rhwng Mehefin a Rhagfyr 2003 yn agoriad llygad i ni yng Nghymru.

Cafwyd dwy noson o afreolaeth ar stad Parc Caia Wrecsam ym mis Mehefin, yn sgîl gwrthdaro rhwng ffoaduriaid a phobl leol. Y canlyniad oedd i ffoaduriaid Iracaidd gael eu symud i leoliad cyfrinachol, a thorf o tua 200 o bobl yn lluchio bomiau petrol at yr heddlu. Roedd elfen hiliol y trais yn dangos y tensiynau sydd o dan yr wyneb yn ein cymunedau, a'r math o hiliaeth sydd wrthi'n dod i'r amlwg, wedi'i anelu at geiswyr lloches a ffoaduriaid.

Ym mis Hydref, roedd rhaglen ddogfen y BBC *The Secret Policeman* yn dangos un o heddweision Gogledd Cymru yn gwisgo mwgwd tebyg i un y Ku Klux Klan, ac yn gwneud sylwadau hiliol, ffiaidd. Roedd y mwgwd, am foment, yn cuddio ei wyneb, ond yn datgelu oes o atgasedd, a chasineb a ymdreiddiai i Heddlu Gogledd Cymru a thu hwnt. Ym mis Rhagfyr, canfu ein hymchwil-iad ffurfiol i Wasanaeth Carcharau EM ei fod yn gyfrifol am wahaniaethu ar sail hil. Golygai hyn amryfal broblemau i'r gyfundrefn garcharau yn gyffredinol, ond at hynny, datgelwyd hiliaeth amlwg ac erchyll yng Ngharchar EM Parc, Pen-y-bont ar Ogwr. I mi, roedd y ddau adroddiad yn tanlinellu'r ffordd y mae hiliaeth yn parhau'n styfnig wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er gwaethaf deddfwriaeth newydd i'w ddileu.

Wedi dweud hynny, roedd yn galondid gweld i'r British National Party (BNP), gyda'i agenda hiliol, fethu ennill llawer o dir yng Nghymru. Dylem ymfalchïo mai Cymru o hyd yw'r genedl Brydeinig ble mae'r gefnogaeth i'r BNP ar ei gwannaf. Dylem fod yn falch hefyd mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn 2003, oedd y llywodraeth genedlaethol gyntaf yn y DU – yn wir, y gyntaf yn y byd – i gael niferoedd cyfartal o ddynion a menywod yn gynrychiolwyr etholedig.

Ond rhaid i ni beidio â bod yn hunanfodlon. Do, fe ddaeth y BNP yn olaf yn yr etholiad ar gyfer ward Aston ar Gyngor Sir y Fflint, ond fe gawson nhw 15 y cant o'r bleidlais serch hynny. Rhaid i ni fod yn wyliadwrus er mwyn rhwystro grwpiau ffasgaidd rhag manteisio ar densiynau a rhaniadau yn ein cenedl. Ym mis Tachwedd, fe heriais bleidiau gwleidyddol Cymru i gyflwyno corff etholedig a oedd yn gwir gynrychioli cymdeithas Cymru o fewn 75 mis. Bydd corff o'r fath, sy'n adlewyrchu poblogaeth amrywiol, amlddiwylliannol, yn ein helpu i sefydlu cenedl ble'r ydym oll yn cael ein gwerthfawrogi'n gyfartal, ni waeth beth fo'n gwahaniaethau.

Does dim lle yng Nghymru ar gyfer hiliaeth.



**Cherry Short**

# 1 HYRWYDDO CYDRADDOLDEB HILIOL

Yr oedd llawer o'n gwaith yn 2003 yn ymwneud â sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn bodloni eu dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Gwnaethom gynnydd da yn ein gwaith yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y sector preifat hefyd.

## Llywodraeth leol a thai

Buom yn cynnig cyngor a chefnogaeth i nifer o awdurdodau lleol a oedd angen rhagor o wybodaeth am eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol. Mewn un achos, bu'n rhaid i ni gyflwyno rhybudd cydymffurfio ffurfiol yn erbyn awdurdod lleol, sef y rhybudd cyntaf o'i fath i gael ei gyflwyno ym Mhrydain Fawr. Fe'i cyflwynwyd i Gyngor Bwrdeistref Conwy ym mis Mai, oherwydd iddo fethu llunio cynllun cydraddoldeb hiliol erbyn y dyddiad penodedig. Buom yn cwrdd â swyddogion o dîm arolygu perfformiad a pholisi y cyngor, gan roi gwybodaeth iddynt am waith cydraddoldeb hiliol sy'n cael ei wneud yn lleol yng Ngogledd Cymru, ac am ddulliau ymgynghori, ac ailadrodd ein cynnig i roi cefnogaeth gyda chynllun cydraddoldeb hiliol y cyngor. Rydym yn parhau i weithio gyda'r cyngor i wneud yn siwr ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd yn llawn.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), yn enwedig yr Uned Gydraddoldeb, a buom yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth Cyrff Cydraddoldeb, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Hawliau Anabledd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Buom yn meithrin ein perthynas â'r Comisiwn Archwilio, a mynychu cyfarfodydd gyda'r comisiwn ac WLGA i gynllunio digwyddiad ar y cyd ar gyfer staff o'r tri chorff i drafod y dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol, amcanion pob corff, a'r datblygiadau rheoleiddiol diweddaraf.

Buom yn gweithio hefyd â chyrff cydraddoldeb eraill, megis Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA). Buom yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau allanol AWEMA, gan gynnwys ei Phwyllgor Pwnc Tai, sy'n edrych ar y gofynion ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol i lunio strategaeth dai ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a chynllun cydraddoldeb hiliol. Buom yn trefnu gweithdy ar rwymedigaethau awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghynhadledd Dai Genedlaethol BME, a gefnogwyd gennym ar y cyd ag AWEMA a Sefydliad Tai Siartredig Cymru. Buom hefyd yn parhau i gyfrannu at gyfarfodydd Grŵp Arolygu Tai BME y Cynulliad Cenedlaethol.

Mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN), daliwyd ati i gefnogi gwaith NWREP (Partneriaeth Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru), a fu'n cynnwys yr holl landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Ngogledd Cymru mewn rhaglen ar y cyd i roi hyfforddiant ym maes ymwybyddiaeth o hil, a datblygu polisïau a straegaethau. Roedd prosiect Cyd-gynghorau Sir Gogledd Cymru yn gyfle i ddatblygu ymagwedd gyffredin tuag at fodloni anghenion tai lleiafrifoedd ethnig. Roeddem yn falch o roi cyngor a gwybodaeth ynghylch ymgynghori â phobl o leiafrifoedd ethnig, a sut y gallai'r prosiect fodloni gofynion y dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol. Aethom ati hefyd i anfon astudiaeth dichonoldeb at y Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cefnogi'r argymhelliad i sefydlu cymdeithas dai eilaidd.


Roedd caffael yn rhan bwysig o'n gwaith gydag awdurdodau lleol yn 2003, ac ym mis Gorffennaf fe gyhoeddwyd dau ganllaw gennym – un ar gyfer awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau tân a'r heddlu, ac un ar gyfer awdurdodau cyhoeddus mewn sectorau eraill, gan gynnwys iechyd ac addysg. Mae'r canllawiau yn egluro beth y mae'n rhaid i awdurdodau ei wneud i fodloni'r dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol wrth brynu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau gan gontractwyr. Mae'r cyngor yn cwmpasu pob cam yn y broses gytundebau. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi cyngor i ddarpar gontractwyr. Yn ystod y cyfnod ymgynghorol, buom yn cyd-drefnu gweithdy mewn cyfarfod o Rwydwaith Swyddogion Cydraddoldeb WLGA, i dynnu sylw at y prif faterion yn y canllawiau

drafft ac annog pobl i ymateb. Lansiwyd y canllawiau yng Nghaerdydd, mewn partneriaeth â WLGA, a chyda chymorth Gwenda Thomas AC, cadeirydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol.

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn ystod 2003, buom yn canolbwyntio ar waith y pleidiau gwleidyddol a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Buom yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad yn rheolaidd i roi cyngor ar gydraddoldeb hiliol. Ym mis Chwefror, buom yn cyflwyno papur gerbron y pwyllgor ar gynnydd awdurdodau Cymru wrth weithredu eu dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol.




Cawsom gefnogaeth gan y prif bleidiau gwleidyddol ar gyfer ein papur, *Gwleidyddiaeth, Cynrychiolaeth ac Ymrwymiad: Hil a phleidiau gwleidyddol yng Nghymru*, a oedd yn seiliedig ar y cytundeb gwleidyddol a lofnodwyd gan y pedair brif blaid wleidyddol cyn etholiad cyffredinol 2001, a dau gymal cydraddoldeb Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Roedd y papur yn disgrifio swyddogaeth pleidiau gwleidyddol wrth gyflawni gweledigaeth y Ddeddf, gan ofyn sut y gall pleidiau ymgorffori egwyddorion sylfaenol y Cynulliad, a'r gwerthoedd ar y cyd sy'n nod i Gymru ddatganoledig. Amlygai hefyd rai o'r materion cydraddoldeb hiliol tymor hir y mae angen i'r pleidiau ymdrin â nhw, ac awgrymir ffyrdd o chwalu'r rhwystrau sy'n cadw pobl rhag cymryd rhan, a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Lansiwyd y papur ym mis Mawrth, ac rydym yn falch fod yna bellach ymrwymiad cryf, trawsbleidiol, tymor hir i ymdrin â materion hil.

Ym mis Gorffennaf, buom yn cyd-drefnu seminar gyda Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan ar fanteision gosod cydraddoldeb hiliol ym mhrif ffrwd holl waith polisi y Cynulliad.

Er mwyn cynorthwyo gwaith aelodau'r Cynulliad, aethom ati i lunio *Mainstreaming Race Equality: A checklist for an AM*, a'i anfon at yr holl aelodau. Buom yn ysgrifennu cyfarwyddyd ar y materion sy'n wynebu cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol, a'r dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol, a lansio cylchlythyr ar gyfer aelodau a swyddogion cyhoeddus eraill. Buom yn mynychu cynadleddau'r pedair brif blaid wleidyddol.

## Addysg

Fe wnaethom ni barhau i feithrin ein perthynas ag Estyn, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru, i'n helpu i fonitro llwyddiant yr awdurdodau wrth geisio bodloni eu dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol. Buom yn mynychu Fforwm Addysg Ôl-16 Estyn, a sefydlwyd i edrych ar swyddogaeth arolygwyr a'r broses arolygu. Hefyd, buom yn trafod gydag Estyn y cynnydd a wnaeth gyda'i gyllun cydraddoldeb hiliol ei hun, hyfforddiant cydraddoldeb hiliol ar gyfer ei staff, cyhoeddi dogfen fframwaith arolygu cyffredin, a memorandwm dealltwriaeth.

Buom yn cymryd rhan mewn nifer o fforymau a seminarau addysgol, a roddai gyfle i ni egluro ein swyddogaeth a phwysleisio swyddogaeth y dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol wrth redeg ysgolion a sefydliadau addysgiadol eraill o ddydd i ddydd. Er enghraifft, buom yn cyd-drefnu gweithdy ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol mewn addysg, gydag awdurdodau addysg lleol Casnewydd a Chaerdydd, a hefyd yn arwain seminar tebyg ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Buom yn cynnig cyngor a chymorth i gyrff (gan gynnwys Dysgu ac Addysgu Cymru) a oedd yn awyddus i sicrhau bod eu cynllun cydraddoldeb hiliol diwygiedig o safon uchel. Buom yn delio â llawer o ymholiadau ynghylch cymhwyso'r dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol at ysgolion annibynnol a myfyrwyr tramor, ac at ffurflenni monitro ethnigrwydd.

Ym mis Mehefin, cafodd adroddiad *Cyraeddiadau Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru* ei gyhoeddi gan Gymdeithas Saesneg fel Iaith Ychwanegol Cymru, gyda nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd yr adroddiad pwysig hwn yn amlygu gwahanol lefelau cyrhaeddiad disgyblion o leiafrifoedd ethnig

yng Nghymru. Buom yn pwysleisio pa mor bwysig yw gwaith fel hyn, ac roeddem yn hynod falch bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymroi wedyn i weithredu argymhellion yr adroddiad.

Mewn partneriaeth â'r Uned Her Cydraddoldeb, buom yn gweithio gydag wyth sefydliad addysg uwch ledled y DU, gan gynnwys Prifysgol Cymru yn Abertawe, ar brosiect dwy flynedd i'w helpu i lwyr ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i fodloni eu dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol. Ym mlwyddyn gyntaf y dyletswydd fel hyn, buom yn cynorthwyo'r sefydliadau gyda'u cynlluniau gweithredu.

## Cyfiawnder troseddol

Bu ein hymchwiliadau ffurfiol i wasanaethau'r heddlu a charcharau yn rhan bwysig o'n gwaith ym maes cyfiawnder troseddol yn 2003. I gael manylion yr ymchwiliadau hyn, gweler t 7.

Lansiwyd fforwm cyfiawnder troseddol gennym, i nodi mentrau a fyddai'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn fwy effeithiol yng nghyfundrefn cyfiawnder troseddol Cymru. Cytunodd Gwasanaeth Profiannaeth Cenedlaethol De Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron De Cymru, Pwyllgor Llysoedd Ynadon De Cymru, a Heddlu Gwent oll i gymryd rhan. Mae'r fforwm yn gweithio gyda phrosiect Heddlu De Cymru, 'Cofleidio Amrywiaeth', i annog ystod eang o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gymryd rhan, ac addysgu eu staff ynghylch materion cydraddoldeb hiliol yng Nghymru.

Buom yn mynychu nifer o gynadleddau, megis Diwrnod Agored Prosiect Undod Heddlu Gwent a Llys y Goron Caerdydd, i ddosbarthu gwybodaeth am y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Buom hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o sesiynau hyfforddi er enghraifft, ar gyfer swyddogion newydd eu recriwtio yn Centrex (Awdurdod Datblygu ac Hyfforddi Canolog yr Heddlu) yng Nghwmbrân, i dynnu sylw at y nifer anghyfartal o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n cael eu stopio a'u chwilio.

Buom hefyd yn cryfhau ein perthynas ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Yn dilyn ymweliad â Charchar Caerdydd, cawsom wahoddiad i ymuno â'i dîm rheoli cysylltiadau hiliol. Buom yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Amrywiaeth Profiannaeth De Cymru, sy'n gweithio i wella nifer y bobl sy'n cael eu recriwtio i'r gwasanaeth profiannaeth o leiafrifoedd ethnig. Buom hefyd yn cefnogi Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb Gwasanaeth Heddlu De Cymru yn ei waith i archwilio a delio â nifer y digwyddiadau o stopio a chwilio sy'n wynebu pobl o leiafrifoedd ethnig.




Yn ystod y flwyddyn buom yn cymryd rhan mewn amryw o ddigwydd-iadau a roddai gyfle i ni egluro perthnasedd y dyletswydd tuag at gydradd-oldeb hiliol i ysgolion.

Buom yn cwrdd â Heddlu Gogledd Cymru, i drafod ei ddulliau ymgynghori cymunedol, a'i gynlluniau i sefydlu fforymau ymgynghori adrannol. Buom yn cyfrannu'n rheolaidd at Grŵp Strategaeth Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru, a helpu i gynllunio cynhadledd 'Troseddau Casineb' Gogledd Cymru, ble rhoesom gyflwyniad ar 'y dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol. Buom hefyd yn trefnu is-grŵp hil Pwyllgor Cyfiawnder Troseddol Rhanbarthol Gogledd Cymru (a ddisodlwyd ers hynny gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru).

## Iechyd

Er prinned yr adnoddau yn 2003, buom yn mynychu sawl digwyddiad i hyrwyddo'r gwaith o roi cydraddoldeb hiliol yn y prif ffrwd yn y sector iechyd. Er enghraifft, buom yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol y Plant, Grŵp Cynhwysiant Mynediad Cymdeithasol Galw Iechyd Cymru, a'r Gwasanaeth Trallwyso Gwaed, a buom yn cwrdd hefyd ag Uned

Gydraddoldeb y GIG, a Jane Hutt AC, Gweinidog Cabinet y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Buom hefyd yn mynychu cynhadledd iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chynhadledd y Cynulliad Cenedlaethol ar y Gymraeg yn y GIG.

Buom yn gweithio gydag ymddiriedolaethau GIG a chyrff iechyd eraill ledled Cymru a oedd yn awyddus i ddiwygio eu cynllun cydraddoldeb hiliol – er enghraifft, Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Wrecsam Maelor, a oedd angen cyngor ynghylch gwella ei drefniadau ymgynghori. Roedd y gwaith hwn yn gyfle i ni rannu gwybodaeth ynghylch ymagweddau newydd, mentrau lleol, ac enghreifftiau o arferion da. Buom hefyd yn delio â llawer o ymholiadau ynghylch gwahanol agweddau ar y dyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys monitro ethnigrwydd, enghreifftiau o arferion da, a hyfforddiant.

Buom yn cwrdd ag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i drafod ein dogfen fframwaith arolygu, a'r memoradwm dealltwriaeth a gytunwyd gyda'r arolygiaeth.

## Gweithio gyda busnesau

Yn 2003 buom yn cryfhau ein cysylltiadau â Chonffederasiwn Diwydiannau Prydain, Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Ffederasiwn Busnesau Bychain, ac aelodau eraill o Rwydwaith Busnes Cymru.

Yn ystod y flwyddyn fe ddechreuon ni weithio i ddiwygio ein côd ymarfer statudol ar gyfer cael gwared â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cyfle cyfartal ym myd gwaith, a datblygu canllaw ymarferol i helpu busnesau llai sicrhau cydraddoldeb hiliol yn y ffordd y maent yn cyflogi staff a chyflwyno gwasanaethau. Bydd ein cysylltiadau â Rhwydwaith Busnes Cymru yn werthfawr dros ben pan fyddwn yn dosbarthu'r deunyddiau hyn i fusnesau.

Yng Nghymru, mae dylanwad cyrff cyhoeddus yn gryf ar ddatblygiad y sector preifat, ac o ganlyniad mae ganddynt ran arbennig o gryf i'w chwarae wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Tanlinellwyd hyn ym mis Gorffennaf wrth i ni lansio ein canllawiau caffael ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (gweler t 3). Un o'r cyfranwyr allweddol at y digwyddiad, ac at y broses ymgynghorol yn arwain at hynny, oedd Ethnic Business Support Programme (EBSP) Cyf, y corff dielw sy'n gyfrifol am lywio entrepreneuriaid o leiafrifoedd ethnig tuag at yr asiantaethau cefnogi priodol dan brosiect Potentia Awdurdod Datblygu Cymru (WDA).

Ym mis Medi, trefnodd EBSP y chweched Gynhadledd Fusnes i Leiafrifoedd Ethnig yng Nghaerdydd, ble bu Trevor Phillips, ein cadeirydd, yn rhoi un o'r prif anerchiadau.

Bu gennym ran yn nifer o fentrau eraill y WDA yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Cyllid Cymru (corff, a noddir gan y WDA a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ariannu cwmnïau sy'n ymsefydlu); buom yn gweithio i sicrhau bod entrepreneuriaid o leiafrifoedd ethnig yn cael manteisio ar ei wasanaethau;
- Prosiect Cydraddoldeb SME (sy'n hyrwyddo cydraddoldeb mewn mentrau bychain a chanolig); a
- Phartneriaeth Datblygu Cyfenter (sy'n cefnogi entrepreneuriaid o grwpiau dan anfantais).

Parhaodd ein gwaith gydag asiantaethau megis Gyrfa Cymru a'r Gronfa Manteisio ar Wybodaeth, er mwyn sicrhau bod lleiafrifoedd ethnig yn cael mynediad at eu gwasanaethau.

Roedd Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) yn bartner pwysig i ni yn ystod y flwyddyn. Yn ei gynhadledd flynyddol ym mis Mai, cynhaliwyd cyfarfod hynod lwyddiannus gennym ar y cyrion, gydag UNISON, ble cafwyd anerchiad gan gomisiynydd y CRE, Gloria Mills. Ymhlith y materion a drafodwyd roedd cynnig y llywodraeth ar gyfer comisiwn cydraddoldeb sengl. Ym mis Hydref, bu Pwyllgor Cydraddoldeb Hiliol y TUC yn cynnal cynhadledd ar thema herio hiliaeth, ble buom yn lansio *Working Together: Protocol guidelines for working relations between the CRE, TUC and trades unions in Wales*. Nod y canllawiau yw sicrhau bod undebwyr llafur yn cael eu cynrychioli'n briodol mewn achosion o wahaniaethu, a rhoddwyd croeso i hyn gan y gynhadledd. Ar ôl ymgynghori gydag undebau cyswllt, rydym yn bwriadu lansio'r ddogfen yn 2004.

# 2 DEFNYDDIO EIN PWERAU CYFREITHIOL

Yn 2003, cawsom gyfanswm o 42 cais am gymorth (o gymharu â 133 yn 2002; gweler Tabl 1); roedd 24 yn ymwneud â chyflogaeth (gostyngiad o 66 y cant o gymharu â 2002), ac roedd 18 yn ymwneud â materion oedd ddim yn gysylltiedig â chyflogaeth (gostyngiad o 68 y cant). Y prif reswm dros y gostyngiad hwn mewn ceisiadau oedd nad oedd gennym ond un swyddog cyfreithiol yn y swydd yn 2003, ac o ganlyniad bu'n rhaid ysgwyddo llai o waith.

Fel y dengys Tabl 2, pobl o darddiad Du Affricanaidd a wnaeth y nifer fwyaf o gwynion (wyth), ac yna ymgeiswyr o grwpiau Du Arall (saith) a Gwyn (pump).

Buom yn ystyried 103 cais yn ystod 2003 (ni dderbyniwyd y cyfan o'r rhain yn ystod y flwyddyn galendr), ac ni dderbyniodd yr un gynrychiolaeth gyfreithiol gennym. Llwyddodd ein swyddog cyfreithiol yng Nghymru i ddatrys naw achos heb wrandawiad, a chynrychiolwyd 20 achos trwy gyrff eraill, megis undebau llafur a chynghorau cydraddoldeb hiliol.

### TABL 2: CEISIADAU AM GYMORTH, YN ÔL GRŴP ETHNIG, 2003

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Bangladeshaidd | 2 |
| Du Africanaidd | 8 |
| Du Caribïaidd | 3 |
| Du Arall | 7 |
| Tsieineaidd | 0 |
| Indiaidd | 4 |
| Gwyddelig | 0 |
| Arall | 11 |
| *Sipsi/Teithiwr* | *0* |
| Pacistanaidd | 2 |
| Gwyn | 5 |
| *Albanaidd* | *0* |
| *Seisnig* | *0* |
| *Arall* | *0* |
| **Cyfanswm** | **42** |

## Ymchwiliadau ffurfiol

***Gwasanaeth yr Heddlu***

Yn dilyn darllediad rhaglen ddogfen y BBC *The Secret Policeman* ym mis Hydref, fe wnaethom ni gyhoeddi ein bod yn bwriadu lansio ymchwiliad i hiliaeth yng ngwasanaeth yr heddlu ledled Cymru a Lloegr. Bydd Syr David Calvert-Smith QC, cyn gyfarwyddwr erlyniadau cyhoeddus yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, yn arwain yr ymchwiliad, a fydd o ddiddordeb arbennig yng Nghymru, yn sgîl ymddygiad swyddogion Heddlu Gogledd Cymru a ddangosir yn y ffilm. Rydym yn gobeithio cyhoeddi ein canfyddiadau dechreuol erbyn diwedd gwanwyn 2004.

***Gwasanaeth Carcharau EM***

Ym mis Rhagfyr, fe gyhoeddwyd casgliadau ein hymchwiliad ffurfiol i Wasanaeth Carcharau EM. Gwelsom fod y gwasanaeth yn gyfrifol am wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil mewn 14 maes, a daethom i ddau gasgliad cyffredinol: yn gyntaf, nid oedd y gwasanaeth wedi llwyddo i warchod pob carcharor yn ei ofal yn gyfartal; ac yn ail, roedd y gwasanaeth wedi methu sicrhau cydraddoldeb hiliol o ran y ffyrdd y mae'n cyflogi staff a thrin carcharorion. Gwelwyd y methiannau hyn yn gyffredinol yn y tri charchar a ddewiswyd i ymchwilio iddynt; un o'r rhain

### TABL 1: CEISIADAU AM GYMORTH Y CRE YNG NGHYMRU, 2003


| | CYFLOGAETH | | NID CYFLOGAETH | | Y TU ALLAN I'R RHYCHWANT | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ion – Rhag 2002 | Ion – Rhag 2003 | Ion – Rhag 2002 | Ion – Rhag 2003 | Ion – Rhag 2002 | Ion – Rhag 2003 | Ion – Rhag 2002 | Ion – Rhag 2003 |
| Ceisiadau ffurfiol | 71 | 24 | 56 | 18 | 6 | 0 | 133 | 42 |




Carchar EM/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, un o'r tri charchar a archwiliwyd yn ein hymchwiliad ffurfiol o Wasanaeth Carcharau EM.

oedd Carchar EM/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, ger Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru.

Buom yn llunio drafft o gynllun gweithredu manwl ar gyfer cael cydraddoldeb hiliol drwy'r gwasanaeth i gyd, a chyhoeddwyd hwn ochr yn ochr â'n hadroddiad. Roeddem yn falch fod y gwasanaeth wedi ymroi i weithredu ein cynllun, a byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaeth i fonitro cynnydd.




## Snakes and Ladders

Ym mis Mawrth 2003, ar y cyd â'r Comisiwn Hawliau Anabledd, y Comisiwn Cyfle Cyfartal, a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfraith, lansiwyd *Snakes and Ladders: Advice and support for employment discrimination cases in Wales* yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad yn amlygu risg sylweddol bod pobl yng Nghymru yn llawer llai tebygol na phobl mewn mannau eraill yn y DU o fod yn llwyddiannus wrth herio gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd, hil neu ryw. Edrychwyd ar brofiadau pobl a wynebodd wahaniaethu anghyfreithlon yn 'y prinder cynghori' sy'n bodoli yng Nghymru, a disgrifir y rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth geisio cael cyngor a chefnogaeth briodol ar eu llwybr at gyfiawnder.

Mae'r adroddiad yn argymell:

- y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried darparu gwasanaethau cynghori ar wahaniaethu fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ymdrin â dieithrio cymdeithasol;
- y dylai asiantaethau statudol a gwirfoddol Cymru roi gwell hyfforddiant i ymgynghorwyr, a gwell cyd-drefnu ymhlith asiantaethau ymgynghorol ac undebau llafur; ac
- y dylai tribiwnlysoedd cyflogaeth recriwtio rhagor o fenywod ac aelodau o leiafrifoedd ethnig ar eu paneli, a chynyddu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer hyfforddi aelodau ym maes gwahaniaethu.

Yn ystod y flwyddyn buom yn trafod sut i ymateb i argymhellion yr adroddiad gyda chyrff sy'n bartneriaid i ni.

Tua diwedd y flwyddyn lansiwyd drafft ymgynghorol o brotocol ar y cyd ar ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau TUC Cymru wrth ymdrin â chwynion o wahaniaethu gan aelodau undebau llafur.

## Gwaith dilynol

Perswadiwyd prif gwnstabl cynorthwyol Heddlu Gogledd Cymru i weithio gyda Phwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru i ymchwilio i'n pryder nad yw ynadon yn llwyddo i roi coel ddigonol i gyhuddiadau hiliol dwys.

Buom yn cwrdd hefyd â'r pennaeth ysgolion, cyrhaeddiad ac anghenion addysgol arbennig yn AALl Castell-nedd Port Talbot, i drafod sut roedd yn bodloni ei ddyletswydd tuag at gydraddoldeb hiliol, a dod i ddeall mwy am ansawdd y polisïau cydraddoldeb hiliol yng Nghastell-nedd Port Talbot.

# 3 GWEITHIO GYDA CHYMUNEDAU

Buom yn ymestyn ac ehangu ein cysylltiadau â chymunedau lleol ledled Cymru yn 2003.

## Gwaith cydraddoldeb hiliol lleol

Tua diwedd y flwyddyn buom yn dechrau cryfhau ein cysylltiadau â chynghorau cydraddoldeb hiliol yn Ne Cymru, a'u gwahodd i gwrdd â ni i drafod materion sy'n peri pryder. Gobeithio y bydd y gwaith cyswllt hwn yn caniatáu i ni ffurfio lobi gryf, hyderus er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Buom hefyd yn cryfhau ein cysylltiadau â'r sector gwirfoddol, er mwyn edrych ar gyfleoedd i weithio gyda'n gilydd.

Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd y newid i'n fframwaith nawdd newydd, Sicrhau Canlyniadau, sy'n mynnu bod cyrff cynghorau cydraddoldeb hiliol yn bennaf yn seilio eu ceisiadau am nawdd ar ganlyniadau a gafodd eu cynllunio. Mae'r ymagwedd hon yn caniatáu i ni sicrhau bod y gwaith y byddwn yn ei ariannu yn canolbwyntio'n glir ar ganlyniadau a fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i gymunedau.

Yn sgîl ein perthynas agos â Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN) fe gawsom gip defnyddiol ar hyd a lled hiliaeth a gwahaniaethu yng Ngogledd Cymru, a chawsom fodel ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â chyrff cydraddoldeb hiliol lleol. Ar ôl i raglen ddogfen y BBC, *The Secret Policeman* (gweler t 7), gael ei darlledu ac i hynny ddatgelu hiliaeth o fewn Heddlu Gogledd Cymru, buom yn gweithio gyda NWREN i wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r materion pwysig ar gyfer Cymru sy'n codi yn sgîl y rhaglen, a chynnig cyngor ynghylch delio â hiliaeth o fewn yr heddlu.

Buom yn gweithio gyda NWREN hefyd yn dilyn yr helyntion ar Barc Caia, Wrecsam ym mis Mehefin. Penllanw'r afreolaeth oedd i dorf o tua 200 o bobl daflu bomiau petrol at yr heddlu, a bu'n rhaid symud rhai ffoaduriaid Iracaidd a gafodd eu dal yng nghanol y trais i leoliad cyfrinachol gyda'r heddlu yn eu gwarchod. O ganlyniad i elfen hiliol y trais, buom yn cynnal trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, aelod lleol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Aelod Seneddol lleol, a grwpiau cymunedol lleol, i ddatblygu strategaeth ar gyfer delio â'r tensiynau yn y gymuned, a dysgu gwersi a fyddai o fudd i gymunedau eraill mewn sefyllfa debyg. Ar sail y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â gwybodaeth am brofiadau Sipsiwn a Theithwyr lleol, aethom ati i gynnwys Wrecsam fel un o'r pum ardal arbrofol yn ein Menter Cymunedau Diogel Ledled Prydain, a fydd yn cychwyn o ddifrif yn 2004.




Heddlu ar stad Parc Caia, Wrecsam yn ystod y ddwy noson o afreolaeth ym mis Mehefin.

## Sipsiwn a Theithwyr

Ym mis Mai, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol ei arolwg ar ddarparu gwasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Un o argymhellion yr arolwg oedd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda ni i ddatblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â rhagfarn yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr, ac ystyried deddfwriaeth pan fo angen hynny. Rydym yn croesawu'r arolwg, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y mater hwn.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, lansiwyd ymgynghoriad ar ein strategaeth dair blynedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mhrydain Fawr. Buom yn cynnal cyfarfod ym mis Tachwedd gyda chynrychiolwyr o sefydliadau Sipsiwn a Theithwyr, awdurdodau lleol, a sefydliadau perthnasol eraill i drafod y gwahaniaethu sy'n wynebu Sipsiwn a Theithwyr.

# 4 GWELLA EIN GWASANAETHAU

Erbyn diwedd 2003, yr oedd tri aelod staff newydd wedi ymuno â ni, gan gynnwys ein cyfarwyddwr newydd. Roeddem hefyd wedi ailafael yn y gwersi Cymraeg i aelodau staff, gweld gwaith ein bwrdd ymgynghorol newydd yn dechrau'n llwyddiannus, a dechrau arolygu ein gwaith i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau a rhoi gwerth am arian.

Wrth i'r flwyddyn dynnu at ei therfyn, roeddem hefyd yn paratoi ein cynllun busnes, a'n gweledigaeth ar gyfer y math o gynnydd rydym eisiau ei wneud ar gydraddoldeb hiliol yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf. Roeddem hefyd wedi dechrau ar raglen o gyfarfodydd i estyn allan at gyrff cydraddoldeb hiliol eraill yng Nghymru, a chyfres o seminarau agored ar arferion da ym maes cydraddoldeb hiliol, i'w cynnal yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a hefyd yng Ngogledd Cymru.

Yn anffodus, oherwydd prinder adnoddau gydol y flwyddyn ni fu'n bosib i ni ymgymryd â rhai mathau o waith cyhoeddus a fu'n rhan bwysig o'n gweithgarwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf, megis Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

## AELODAU BWRDD YMGYNGHOROL CYMRU Y CRE

### Comisiynydd y CRE

Cherry Short

### Aelodau allanol

Graham Benfield

Dr Rose M D'Sa

Catherine Eva

Elizabeth Haywood

Yasmin Hussein

Glen Jordan

David Seligman

Elan Closs Stephens

Fran Targett

Charlotte Williams

Felicity Williams




Staff CRE Cymru gyda'r comisiynydd Cherry Short.

Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976. Mae ganddo dri phrif ddyletswydd.

- Gweithio tuag at gael gwared â gwahaniaethu ar sail hil.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau ethnig.
- Cadw'r Ddeddf dan arolwg a gwneud cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ei newid.

Yn sgîl Deddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) 2000 gwelwyd newidiadau cynhwysfawr i Ddeddf 1976.

- Bellach mae'n cwmpasu pob swyddogaeth gyhoeddus.
- Mae'n gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.
- Mae'n rhoi grym newydd i'r CRE orfodi cydymffurfio.

© Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
St Dunstan's House
201-211 Borough High Street
Llundain SE1 1GZ

Cyhoeddwyd Mehefin 2004
ISBN 1 85442 550 1

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL